

PRIFYSGOL BANGOR BANGOR UNIVERSITY



PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

ARHOLIADAU YSGOLORIAETHAU MYNEDIAD 2025 SCHOLARSHIP ENTRANCE EXAMINATIONS 2025

PWNC / SUBJECT: CERDDORIAETH / MUSIC

Amser a ganiateir: 2 awr
Time allowed: 2 hours

Cyfarwyddiadau / Instructions:

Disgwylir i ymgeiswyr ateb DAU gwestiwn – NAILL AI:

- Un cwestiwn o Adran A ac un cwestiwn o Adran B

NEU

- Dau gwestiwn o Adran B.

Candidates are required to answer TWO questions – EITHER:

- *One question from Section A and one question from Section B*

OR

- *Two questions from Section B.*

ADRAN A: Cyfansoddi

SECTION A: Composition

1. [Dadansoddiad] Ysgrifennwch gyflwyniad (oddeutu 400 gair) yn disgrifio un o'ch cyfansoddiadau a wnaethoch yn barod ar gyfer eich Portffolio Cyfansoddi. Mae modd cyfeirio at yr ysbrydoliaeth tu ôl i'r darn ac unrhyw dechnegau cyfansoddi diddorol a ddefnyddiwyd i greu'r gerddoriaeth.

Deunydd Ychwanegol

I gefnogi eich cyflwyniad, fe'ch annogir i gyflwyno copi o'r cyfansoddiad naill ai fel sgôr neu recordiad mp3 neu gyfuniad o'r ddau. Os y defnyddir geiriau yn y cyfansoddiad yna dylid darparu copi ohonynt. Dylid cyflwyno'r Deunydd Ychwanegol ar Gof Bach (Memory Stick) a'i gynnwys gyda'r papur arholiad mewn amlen, neu mewn e-bost ar wahân i l.a.williams@bangor.ac.uk gan nodi enw y disgybl, rhif UCAS ac enw'r Ysgol/Coleg.

1. [Analysis] Write an introduction (around 400 words) that describes one of your compositions that you have already done for your Composition Portfolio. You may refer to the inspiration behind the piece and any interesting compositional techniques employed within the music.

Additional Material

To support your introduction, you are encouraged to submit a copy of the composition as either a score, an mp3 recording or a combination of the two. If lyrics are used in the composition, then please provide a copy. The additional material should be submitted on Memory Stick and sealed in an envelope with the exam paper or emailed separately to l.a.williams@bangor.ac.uk referencing the name of the pupil, UCAS number and name of the School/Collegel.

2. [Cyfansoddi] Cyfansoddwch gân mewn arddull cyfoes (e.e. roc/pop/jas/r&b, ayyb.) ar gyfer cyfuniad diddorol o offerynnau a/neu lais neu leisiau.

Gellid cyflwyno'r gwaith naill ai fel sgôr neu recordiad mp3 neu gyfuniad o'r ddau. Os y defnyddir geiriau yna dylid darparu copi ohonynt. Dylid cyflwyno'r recordiad mp3 ar Gof Bach (Memory Stick) a'i gynnwys gyda'r papur arholiad mewn amlen, neu mewn e-bost ar wahân i l.a.williams@bangor.ac.uk gan nodi enw y disgybl, rhif UCAS ac enw'r Ysgol/Coleg.

2. [Composition] Compose a song in a contemporary style (e.g. rock/pop/jazz/r&b, etc.) for an interesting combination of instruments and/or voice or voices.

The work could be submitted as either a score, an mp3 recording or a combination of the two. If lyrics are used, then please provide a copy. The mp3 recording should be submitted on Memory Stick and sealed in an envelope with the exam paper or emailed separately to

ADRAN B: Gwerthuso

SECTION B: Appraisal

1. [Traethawd] Dewiswch **un neu ddau** o'r gweithiau gosod a astudiwyd yn ystod eich Cwrs Cerddoriaeth a thrafodwch y gwaith/gweithiau gan ganolbwyntio ar **unrhyw ddwy** o'r agweddau cerddorol isod. Os dewiswch ddau waith, defnyddiwch yr agweddau fel sail i gymharu'r ddau ddarn.

Strwythur
Arddull gyfansoddi
Offeryniaeth
Gwead
Cyweiredd

1. [Essay] Choose **one or two** of the set works studied during your Music Course and discuss it/them concentrating on **any two** of the musical parameters listed below. If you choose two works, use the parameters as a basis for a comparison of the pieces.

Structure
Compositional style
Orchestration
Texture
Tonality

2. [Adolygiad] Dewiswch albwm a ryddhawyd gan artist/fand neu un cyngerdd/gig cerddorol y buoch chi ynddo'n ddiweddar ac ysgrifennwch adolygiad manwl ohonno/ohonni. Dylech drafod unrhyw gryfderau a gwendidau penodol, yn ogystal â'r hyn a wnaeth eich ysbrydoli chi am y gerddoriaeth a/neu'r perfformiad.

2. [Review] Choose an album that was released by an artist/band or a music concert/gig that you recently attended and write a detailed review of the event. You should consider any specific strengths and weaknesses, as well as what inspired you about the music and/or the performance.